## Estyn

Gwnaethom archwilio gwasanaethau addysg llywodraeth leol (LGES) Caerffili a Cheredigion yn ystod tymor yr haf. Cyhoeddwyd yr adroddiadau ddechrau mis Medi. Nodwyd ymarfer cryf gennym yn y ddau awdurdod lleol.

Yn ystod tymor yr hydref byddwn yn arolygu LGES Casnewydd. Rydym hefyd wedi trefnu arolygiad annibynnol o waith ieuenctid yr awdurdod lleol ychydig wythnosau cyn yr arolygiad LGES. Er bod y rhain yn ddau ddarn o waith ar wahân, bydd canfyddiadau'r arolygiad ieuenctid yn llywio’r arolygiad LGES. Gwnaethom dreialu’r trefniant hwn ym Mro Morgannwg y gwanwyn diwethaf, ac mae ein harfarniad o’r trefniant hwn yn dangos bod symleiddio’r broses arolygu yn gweithio’n dda ac yn ychwanegu gwerth at ein gwaith yn gyffredinol.

Mae ein harolygwyr cyswllt yn parhau i weithio gyda Thorfaen fel rhan o'n proses ddilynol ar gyfer awdurdod sy'n achosi pryder sylweddol. Byddwn yn cynnal ymweliad monitro yn Nhorfaen ym mis Hydref i ystyried y cynnydd yn erbyn yr argymhellion o'r arolygiad craidd.

Byddwn hefyd yn cynnal ymweliad cyswllt gwell â Sir Ddinbych ym mis Hydref, gan ganolbwyntio ar agweddau penodol ar bresenoldeb ac anghenion dysgu ychwanegol. Cyhoeddir llythyr canlyniadau’r ymweliad hwn ar ein gwefan.

Byddwn yn gwneud gwaith maes mewn sampl o awdurdodau lleol i ategu dau adroddiad thematig. Byddwn yn ymweld â 10 ALlau i ddysgu am eu dulliau o hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol mewn ysgolion uwchradd; a phum ALl arall i arfarnu eu cymorth ar gyfer MDPh mathemateg a rhifedd yn eu hysgolion.

Ddechrau mis Medi, gwnaethom hyfforddi carfan newydd o arolygwyr cymheiriaid a fydd yn cael eu defnyddio ar ein timau arolygu, yn ogystal â chynnal sesiwn ddiweddaru ar gyfer ein harolygwyr cymheiriaid presennol.

